

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 12 Ionawr 2023

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 19 IONAWR 2023** am **10.00 am** YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 08 Rhagfyr 2022 (copi ynghlwm).

5 ADOLYGIAD O BENDERFYNIAD Y CABINET MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLIAD Y GRŴP GOSOD FFIOEDD RHANBARTHOL
(Tudalennau 15 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, i adolygu'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022 (copi ynghlwm).

10.10 – 11.00 a.m.

6 CAM-DRIN CŴN (Tudalennau 43 - 54)

Ystyried adroddiad gan Reolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd, yn archwilio i ba raddau y caiff cŵn eu gwerthu'n gyfreithlon ac yn anghyfreithlon yn Sir Ddinbych (copi ynghlwm).

11.00 – 11.50 a.m.

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 55 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11.50 – 12.05 p.m.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.05 – 12.15 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Karen Anne Edwards (Is-
Gadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker
Pauline Edwards
James Elson
Martyn Hogg

Alan James
Delyth Jones
Merfyn Parry
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau 8 Rhagfyr 2022 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards (Is-gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Alan James, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor ac Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Elen Heaton yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor.

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Peter Scott, Rhys Thomas, Andrea Tomlin a Mark Young.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ); Uwch Beiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy (BWJ), Cydlynnydd Craffu (RhE); Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ, NH a RhTJ)

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Prif Weithredwr (JK);

Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu (EH)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Merfyn Parry.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu ei ddatgan yn unrhyw un o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod.

Cyn dechrau trafod busnes y cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i'r diweddar Gynghorydd Brian Blakeley, aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor, a fu farw'n ddiweddar. Wrth gydymdeimlo ar ran y Pwyllgor gyda'i ferch, y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor, a gweddill y teulu, fe gyfeiriodd at wasanaeth ymroddedig y Cynghorydd Blakeley i breswylwyr Y Rhyl a Sir Ddinbych.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryd wedi eu codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn y cyfarfod.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 8 Medi 2022. Felly:

Penderfynwyd: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2022 fel cofnod cywir.

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

5 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU

Rhoddodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST), ochr yn ochr â Chyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru, gyflwyniad i'r aelodau gan dynnu sylw at faterion oedd yn ymwneud ag amseroedd ymateb ambiwlans, yn cynnwys data ymateb ar gyfer galwadau yn Sir Ddinbych.

Yn ystod y cyflwyniad fe dynnodd cynrychiolwyr WAST sylw at Berfformiad Gwasanaethau Meddygol Brys. Dim ond 'galwadau coch' oedd â tharged dangosyddion perfformiad penodol, sef y dylid ymateb i 69% o alwadau o fewn 8 i 10 munud. Dangosodd y graff ar gyfer y dangosydd perfformiad yma fod perfformiad wedi gostwng yn gyffredinol ers mis Tachwedd 2020.

Prif nod y Gwasanaeth oedd sicrhau diogelwch cleifion. Gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch cleifion yn wyneb galw cynyddol ar wasanaethau WAST, roedd adolygiad annibynnol a chydweithredol o alw a chapasiti, yn canolbwyntio ar alwadau lefel Oren a phryderon am ddiogelwch cleifion wedi cael ei gychwyn. Mae'r adolygiad yma'n sôn am y lefel o oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai, sef 6,038 (Rhagfyr 2018), a oedd yn uchel ar y pryd. Erbyn mis Hydref 2022, collodd yr Ymddiriedolaeth 28,937 o oriau yn aros i drosglwyddo cleifion i ysbyty - 36% o'i gapasiti, neu 65 sifft y dydd. Roedd y sefyllfa yma'n debygol o waethygu'n sylweddol yn y gaeaf. Pwysleisiwyd mai nad pryder am ddata o ran y galw ymysg cleifion oedd y prif bryder ynglŷn â diogelwch cleifion; y broblem sylfaenol oedd capasiti, yn enwedig y nifer o oriau sy'n cael eu colli yn aros i drosglwyddo cleifion mewn i ysbyty, ac i raddau llai, lefelau absenoldeb salwch ymysg personél WAST.

Ym mis Hydref 2022, roedd y nifer o staff ar gael i'w rhoi ar y rotas i lawr 40% am nifer o resymau, e.e. absenoldeb salwch, Covid-19, gwyliau blynyddol, hyfforddiant ac ati. Defnyddiodd yr adolygiad rota feincod o 30%. Cyn Covid-19, roedd WAST wedi dechrau darparu'r meincnod 30. Yn anffodus, er bod absenoldeb salwch yn dod i lawr, roedd ymrwymadau hyfforddi yn uchel ar hyn o bryd yn sgil symudiadau mewnol yn gysylltiedig â recriwtio, a chafodd hyn effaith wael ar argaeledd rota.

Mewn cysylltiad â'r data a Digwyddiadau Cenedlaethol y Dylid eu Hadrodd (NRI) (marwolaethau osgoadwy/niwed difrifol osgoadwy), roedd WAST yn cael ei ystyried yn sefydliad oedd yn cofnodi llawer. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn ddull da gan ei fod yn golygu diwylliant o fod yn agored a thryloyw, agwedd hanfodol o ran diwylliant diogelwch cleifion. Roedd WAST yn cyfeirio digwyddiadau am ddiogelwch cleifion i fyrdau iechyd, a'r prif achosion oedd oriau oedd yn cael eu colli yn

trosglwyddo cleifion i ysbytai. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd oedd adolygu ac adrodd y digwyddiadau hyn pan fo'n hynny'n briodol fel NRI.

Cynhaliwyd adolygiad strategol annibynnol o Ymchwil Gweithredol ym maes Iechyd ar ran Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC). Roedd EASC yn cynnwys saith bwrdd iechyd, oedd â chyfrifoldeb am gomisiynu ambiwlansiau. Y sail ar gyfer yr adolygiad oedd cleifion Oren (difrifol, ond eu bywydau ddim mewn perygl). Roedd hyn yn cynrychioli'r categori mwyaf o ddigwyddiadau cleifion, gan gyfrif am tua 70% o ddigwyddiadau cleifion, o'i gymharu â Choch (eu bywyd mewn perygl) sydd tua 10% o ddigwyddiadau cleifion. Teimlwyd bod amseroedd aros Oren yn rhy hir, ac roedd yna rywffaint o bryder am nifer y digwyddiadau andwyol difrifol (SAI) i gleifion yn y categori Oren.

Daeth canfyddiadau'r Arolwg i'r casgliad fod gan WAST fwch rhwng y nifer staff cyfwerth â llawn amser i lenwi'r rotas ymateb a'r rhai cyfwerth â llawn amser sydd eu hangen i lenwi rotas 263 o rai cyfwerth â llawn amser. O ganlyniad i'r adolygiad yma, cytunodd EASC i fuddsoddi yn WAST a chau'r bwch, sy'n cael ei alw'n "bwch dros dro (*relief gap*)". O ganlyniad, darparodd WAST gynnydd o 136 mewn swyddi cyfwerth â llawn amser yn 2020/21 ac roeddynt ar y trywydd iawn i ddarparu cynnydd pellach o 127 cyfwerth â llawn amser yn 2021/22, a fyddai'n cau'r "bwch dros dro". Roedd hyn er gwaetha'r pandemig.

Roedd yna ddau amcan i'r Adolygiad Ymateb Rota:

- 1) gwella diogelwch cleifion (trwy ddarparu rotas oedd yn cyd-fynd â galw gan gleifion); a
- 2) gwella lles staff (drwy ddarparu patrymau sifft da y mae modd eu gweithio).

Bu yna lefel uchel o ymgysylltu gyda'r Adolygiad a chafwyd adborth cadarnhaol mewn cysylltiad â'r dull a gymerwyd.

Yn ychwanegol, roedd yr Adolygiad wedi canfod amrywiaeth o effeithiolrwydd ar gyfer WAST, yn benodol ail-drefnu rota adnoddau ambiwlans oedd yn ymwneud â phatrwm galw gan gleifion. Byddai ail-drefnu rota yn arwain at gyflwyno Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARUs) a mwy o ambiwlansiau brys. Byddai CHARUs yn canolbwyntio ar ddadebru (canlyniadau clinigol) ac ambiwlansiau brys ar alwad Oren 1 (diogelwch cleifion). Roedd ail-drefnu yn faes cymhleth ac emosiynol, ond roedd y rotas newydd yn fyw ar hyn o bryd.

Bydd y CHARUs yn disodli cerbyd ymateb cyflym WAST. Byddai CHARU yn darparu sgiliau ac arweinyddiaeth glinigol gan ymateb i alwadau aciwtedd uchel. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gweld llai o adnoddau ymateb cyflym, wrth i WAST gynyddu'r nifer o ambiwlansiau argyfwng sydd ar gael.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd WAST –

- o ganlyniad uniongyrchol i Adolygiad Rota EMS, roedd 263 yn fwy o bersonél wedi'u recriwtio'n genedlaethol, roedd 73 ohonynt wedi'u lleoli o fewn ardal BIPBC
- wedi cytuno i hwyluso trafodaethau rhwng uwch swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a WAST i edrych ar opsiynau posibl i wella cysylltiadau'r awdurdod

Ileol a Thrydydd Sector allai helpu i gefnogi'r Gwasanaeth Ambiwllans, yn ogystal â defnyddio llwyfannau cyfathrebu Sir Ddinbych i rannu negeseuon ac i hyrwyddo'r defnydd o wirfoddolwyr mewn cymunedau lleol i leihau'r straen ar y gwasanaeth ambiwlans.

- dweud bod cydweithio rhwng y gwasanaeth tân ac achub ac ambiwlans yn digwydd, ond i raddau amrywiol ar draws tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru. Mewn rhai ardaloedd o Wasanaeth Tân ac Achub, roedd cydymatebwyr yn bodoli. Fe eglurodd swyddogion bod y mater yn amodol ar drafodaethau diwydiannol, ac roedd yn parhau i gael ei adolygu.
- cadarnhawyd bod diffibrilwyr lleol yn hanfodol i achub bywydau rhag ataliadau ar y galon. Maent yn hawdd i'w defnyddio, nid ydynt yn achosi niwed i glaf sydd yn cael ataliad ar y galon, ac mae gan WAST fapiau diweddar o leoliad pob diffribiliwr cofrestredig ac fe allent anfon unigolyn sy'n ffonio'r gwasanaeth brys at yr un agosaf i'w ddefnyddio tra'n aros am ambiwlans/cerbyd ymateb brys.
- yn eu barn nhw ni fyddai uno WAST gyda'r Bwrdd Iechyd yn darparu datrysiad i'r cyfnod estynedig trosglwyddo cleifion o'r Gwasanaeth Ambiwllans i ysbytai. Y broblem oedd diffyg llif o gleifion o leoliadau gwasanaeth iechyd i sefydliadau gofal cymdeithasol neu yn ôl i'w cartrefi eu hunain. Nid oedd y broblem hon yn unigryw i ogledd Cymru, roedd yn digwydd ar draws Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.
- dywedwyd nad yw defnyddio ambiwlansiau fel 'estyniadau' i Adrannau Brys yn dda i'r claf na'r Gwasanaeth Ambiwllans. Roeddynt yn llefydd anurddasol i gleifion fod yn aros am amser hir, a hyd nes y gallai personél WAST drosglwyddo eu cleifion i staff ysbyty, nid adnodd ambiwlans gwerthfawr ar gael i fynyachu achos brys mewn lleoliad arall.
- fe amlinellwyd y tri math gwahanol o wasanaeth ambiwlans y mae WAST yn ei ddarparu - ambiwlansiau 999 brys, ambiwlansiau gofal brys (i drosglwyddo achosion llai difrifol i ysbyty) a chludo cleifion nad ydynt yn rhai brys (a ddefnyddir i gludo pobl yn ôl ac ymlaen o apwyntiadau ysbyty ac adref o'r ysbyty. Er bod WAST yn defnyddio gwasanaethau ambiwlans a ddarperir gan elusennau megis y Groes Goch ac Ambiwllans St. John, ynghyd ag ambiwlansiau preifat ar adegau, ni allent fod yn or-ddibynnol ar y sector gwirfoddol.
- cadarnhawyd bod ymatebwyr cyntaf yn ymweld â phobl yn eu cartrefi i asesu a oes angen cerbyd brys er mwyn lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Mae WAST bellach yn cyflogi amrywiaeth eang o staff meddygol megis uwch-ymarferwyr parafeddygol, fferyllwyr, therapyddion galwedigaethol ac yn dibynnu ar natur yr anhwylder, fe allai'r personél yma ddelio â'r argyfwng meddygol heb orfod eu cludo i'r ysbyty. Mae hyn yn ei dro yn helpu i liniaru'r pwysau ar yr ambiwlansiau argyfwng 999.

Ar ddiwedd y drafodaeth ddwys, diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am eu cyflwyniad, a holl staff WAST am eu gwaith caled ac ymdrechion roeddynt yn ei wneud o dan amodau eithriadol o anodd ar adegau.

Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau a wnaed -

- (i) ***derbyn y cyflwyniad a gwybodaeth a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST), a chydnabod y mesurau***

- sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn ymateb a rheoli galwadau argyfwng yn effeithiol wrth symud ymlaen;*
- (ii) ar ôl ystyried y pwysau y mae WAST yn ei wynebu ar hyn o bryd, bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd ac Economi yn cynnal trafodaeth rhwng uwch swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a WAST gyda'r bwriad o edrych ar opsiynau posibl i ymestyn cysylltiadau'r awdurdod lleol a Thrydydd Sector a allai helpu i gefnogi'r Gwasanaeth Ambiwlans i ganolbwyntio ei adnoddau ar ddelio â galwadau brys; ac*
- (iii) argymhell bod cysylltiadau yn cael eu sefydlu gyda Gwasanaeth Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor gyda'r bwriad o hyrwyddo negeseuon gwybodaeth gyhoeddus WAST yn gyflym gyda phreswylwyr trwy gyfrwng sianeli a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.*

6 CYFLWYNO TERFYN CYFLYMDER 20MYA AR RWDWAITH FFYRDD Y SIR

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, ynghyd â Phennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethu Cefn Gwlad, y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd ac Uwch Beiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy adroddiad Cyflwyno Terfyn Cyflymder 20mya ar Ffyrdd y Sir (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Bwriad yr adroddiad yw egluro'r cefndir i'r terfyn cyflymder o 20mya a fydd yn cael ei sefydlu cyn bo hir mewn trefi a phentrefi ar draws Cymru, yn cynnwys meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer adnabod eithriadau i'r terfyn cyflymder diodyn. Rhoi trosolwg o'r tasgau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â nhw i baratoi ar gyfer y dyddiad pan ddaw'r terfyn cyflymder diodyn i rym, sef 17 Medi 2023.

Rhoddodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd gefndir am y polisi newydd gan ddweud yn 2020, derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 21 argymhelliad yn adroddiad y Tasglu a gomisiynodd i edrych ar yr achos dros wneud 20mya yn derfyn cyflymder diodyn mewn trefi a phentrefi ar draws Cymru. Ym mis Gorffennaf 2022, pasiodd y Senedd y prif Offeryn Statudol yn diwygio Adran 81 o Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1988 fel y mae'n berthnasol i Gymru, gan wneud 20mya yn derfyn cyflymder gorfodol ar ffyrdd cyfyngedig. 'Ffyrdd Cyfyngedig' yw ffyrdd sydd â goleuadau stryd. Bydd y newid deddfwriaethol hwn yn dod i rym ar 17 Medi 2023.

Dywedodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd wrth y Pwyllgor bod LIC wedi datblygu meini prawf eithrio i'r terfyn cyflymder diodyn o 20mya yn seiliedig ar y tebygolrwydd y bydd 'nifer sylweddol o gerddwyr a beicwyr yn teithio ar hyd neu ar draws y ffordd'. I helpu awdurdodau lleol i wneud yr asesiad hwn, maen nhw wedi datblygu'r 'meini prawf lle' canlynol:

- (i) A oes ysgol neu sefydliad addysgol arall o fewn 100 metr i'r ffordd?
- (ii) A oes canolfan gymunedol o fewn 100 metr i'r ffordd?
- (iii) A oes ysbyty o fewn 100 metr i'r ffordd?
- (iv) A oes eiddo preswyl neu fanwerthu ar ymyl y ffordd, a mwy nag 20 eiddo fesul cilomedr o ffordd (h.y. pum eiddo neu fwy ar bob 250 metr o'r ffordd)?

Fe amlinellodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd y rhestr o eithriadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya, fel y rhestrir yn Atodiad C i'r Adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y terfyn 20mya yn gorfod cael ei gyflwyno yn Sir Ddinbych, gan fod gan rhai aelodau brofiad o'r ardaloedd prawf yn ardal Bwcle ac roeddynt yn bryderus am yr effeithiau y gallai ei weithredu ei gael. Fe eglurodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd ei fod yn newid deddfwriaethol gan LIC, a bod Sir Ddinbych yn gorfod ei weithredu. O ganlyniad i'r newid deddfwriaethol, bydd yn rhaid i bron holl ffyrdd 30mya presennol yn CSDd gael eu newid i 20mya. Dywedodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd y byddai yna oblygiadau cost sylweddol os na fyddai'r gwaith yn cael ei wneud, gan y byddai pob eithriad a gytunwyd ar ôl cyflwyno'r terfyn diofyn newydd yn gorfod cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol, tra bod gwaith sy'n ymwneud â chyflwyno terfyn cyflymder diofyn yn cael ei ariannu gan LIC. Dywedodd y Pwyllgor mai amcan gweithredu'r terfyn cyflymder diofyn newydd oedd lleihau gwrthdrawiadau ac anafiadau difrifol. Roedd data'n dangos drwy leihau cyflymder, gellir lleihau gwrthdrawiadau.
- Fe eglurodd swyddogion mai'r Heddlu fyddai'n parhau i blismona a gorfodi'r terfyn cyflymder diofyn pan fyddai'r newidiadau'n cael eu gweithredu.
- Gofynnodd y Pwyllgor pa ymgynghori oedd wedi digwydd mewn cysylltiad â'r newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder, yn enwedig gyda chynghorau dinas, tref a chymuned. Dywedodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd wrth y Pwyllgor bod y newid yn ymwneud â pholisi LIC, a bod unrhyw ymgynghori wedi cael ei gynnal gan LIC nid gan awdurdodau lleol. Roedd yna gynlluniau ar waith yn genedlaethol i gynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn fuan yn 2023 er mwyn tynnu sylw pobl at y newidiadau a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2023,
- Fe gadarnhawyd bod Sir Ddinbych eisoes wedi casglu data sy'n ymwneud â damweiniau traffig ffordd a chyflymder ar ffyrdd lleol, byddai'r gwaith yma'n parhau ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn newydd.
- Roedd rhai aelodau o'r pwyllgor yn teimlo bod amseru'r newidiadau arfaethedig yn anffodus, yn enwedig o ystyried goblygiadau cost yn ystod 'argyfwng costau byw'. Teimlwyd y byddai'n well gwario'r arian mewn meysydd eraill. Dywedodd swyddogion bod yr holl gostau'n gysylltiedig â chyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn yn cael eu talu gan LIC drwy gyllid grant.
- Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau y byddai ardaloedd chwarae yn cael eu cynnwys yn yr elfen 'meini prawf lle' o'r newidiadau, ac felly byddai'r cyfyngiadau 20mya yn berthnasol.
- Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n fanteisiol trafod cyflwyno'r terfynau cyflymder 20mya ym mhob Grŵp Ardal yr Aelodau er mwyn i aelodau drafod y mater ar lefel leol ac i hysbysu swyddogion am eithriadau eraill y gallai fod angen eu cynnwys yn y rhestr bresennol o eithriadau arfaethedig.
- Roedd y Pwyllgor yn bryderus am effaith economaidd posibl y byddai cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn yn ei gael ar draws Cymru, gan y byddai'n cynyddu amseroedd darparu ac yn lleihau maint unrhyw elw ar draws yr economi genedlaethol. O ganlyniad, fe wnaethant ofyn a oedd asesiad o effaith economaidd cenedlaethol wedi cael ei gynnal. Gan mai newid

enedlaethol oedd hwn, dywedodd swyddogion mai LIC fyddai wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith economaidd.

- Dywedodd swyddogion y byddai mesurau gostegu traffig, megis twmpathau yn parhau i gael eu hystyried a'u defnyddio lle y bo'n angenrheidiol yn seiliedig ar ddata damweiniau traffig ffordd, gan fod mesurau o'r fath yn ddrud i'w gweithredu.

Yn dilyn trafodaeth fanwl -

Penderfynwyd:

- (i) ***yn amodol ar y sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth ac ymgynghori â'r Grwpiau Ardal yr Aelodau ar yr eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn 20mya yn eu hardal, bod y Pwyllgor yn derbyn cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau; a***
- (ii) ***Bod Gwasanaeth Economaidd a Datblygu Busnes y Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gopi o'r Aseiad o Effaith Economaidd a gynhaliwyd ganddynt mewn perthynas â goblygiadau economaidd gweithrediad arfaethedig terfyn cyflymder diofyn 20mya yn Sir Ddinbych.***

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol: –

- Bydd adroddiad Cam-drin Cŵn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr. Nid oedd unrhyw eitemau eraill wedi cael eu trefnu i gael eu cyflwyno ar hyn o bryd.
- roedd yna ddwy eitem sylweddol wedi'u rhestru i gael eu trafod yng nghyfarfod 9 Mawrth.

Felly:

Penderfynodd: y Pwyllgor y dylid cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	19 Ionawr 2023
Pennaeth Gwasanaeth	Lisa Jones, Pennaeth dros dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu
Teitl	Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud ag Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffi Rhanbarthol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Adolygiad o dan drefn 'galw i mewn' Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 13^{eg} Rhagfyr 2022, ynghylch 'Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffi Rhanbarthol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 5 cynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhybudd (ynghlwm yn Atodiad A) yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 13^{eg} Rhagfyr 2022 mewn perthynas ag argymhelliad gan y grŵp gosod ffi rhanbarthol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

- 3.1 ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau, ynghyd â sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, yn penderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad ar 'Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffi Rhanbarthol', a wnaed ar 13^{eg} Rhagfyr 2022, yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach; a

- 3.2 os yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, yn nodi'r rhesymau dros ofyn am adolygiad a llunio argymhellion yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Ar 13^{eg} Rhagfyr 2022, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad ar 'Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffi Rhanbarthol' (copi ynghlwm yn Atodiad B). *Mae Atodiad B wedi ei eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â Pharagraff 14, Rhan 4 o Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*
- 4.2 Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynodd y Cabinet ei fod:
"...yn derbyn yr holl argymhellion o'r Grŵp Ffioedd fel y nodir o fewn yr adroddiad."
- 4.3 Mae trefn galw i mewn y Cyngor yn diffinio proses i Graffu ddefnyddio ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, ac i ofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad i ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn ei weithredu.
- 4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 15^{fed} Rhagfyr 2022. Mae'r drefn 'galw i mewn' yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael 5 diwrnod i gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn'. Bu i'r Cynghorydd Merfyn Parry gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 19^{eg} Rhagfyr 2022. Cefnogwyd y cais hwn (trwy negeseuon e-bost unigol) gan bedwar cynghorydd arall nad ydynt aelodau o'r Cabinet, sef y cynghorwyr Mark Young, Chris Evans, Huw Hilditch-Roberts a Bobby Feeley.
- 4.5 Mae'r rheswm a nodwyd dros 'alw'r penderfyniad i mewn' fel a ganlyn:
"Gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad o'r 13 Rhagfyr 2022 i dderbyn argymhellion y Grŵp Ffioedd o ystyried bod Gwynedd ac Ynys Môn yn argymhell talu llawer mwy i ddarparwyr gofal gyda golwg ar sicrhau cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd i'r dyfodol."
- 4.6 Mae trefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniadau i Mewn oni bai bod fod gan bwyllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y

cyfnod hwnnw. Mae'r drefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a chadeirydd y pwyllgor craffu yn cytuno i estyniad. Gan nad oedd y penderfyniad angen ei weithredu'n syth cytunwyd i ymestyn y cyfnod i alluogi i'r penderfyniad gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf pwyllgor craffu. Felly dyma ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod presennol.

- 4.7 Ar ôl ystyried penderfyniad y Cabinet a'r holl sylwadau a wnaed yn y cyfarfod presennol, rhaid i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau benderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet ai peidio. Os penderfynir bod angen cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet bydd angen i'r Pwyllgor ddarparu ei resymau dros ei gyfeirio'n ôl, ynghyd â gwybodaeth glir ar beth sydd angen i'r Cabinet ei ystyried. Bydd y Cabinet yn ystyried y cyfeirio a'r rhesymau a gyflwynwyd i gefnogi'r cyfeirio yn ei gyfarfod nesaf. Yn y cyfarfod hwnnw disgwylir i'r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i argymhellion y Pwyllgor Craffu.
- 4.8 Bydd gan y Cabinet y dewis i newid neu ail-gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.
- 4.9 Os yw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn penderfynu na ddylid cyfeirio penderfyniad y Cabinet yn ôl i'r Cabinet, yna gellir gweithredu'r penderfyniad gwreiddiol yn syth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themau Corfforaethol?

- 5.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Gweler Adran 8 (ac Atodiad 2) adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Amherthnasol. Paratowyd yr adroddiad hwn o dan ddarpariaethau ac amserlenni Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer galw penderfyniad y Cabinet i mewn.
- 8.2 Mae manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad i'w gweld yn Adran 9 o adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Gweler Adran 10 adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Gweler Adran 11 adroddiad y Cabinet dyddiedig 13^{eg} Rhagfyr 2022 (Atodiad B).

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Mae pwerau craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn:

- Adran 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac
- Adrannau 7.2.1 ac Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor

NOTICE OF CALL IN OF DECISION

To: Head of Legal and Democratic Services

We, the undersigned, wish to call in the following decision (*see note 1*).

Decision taken by (*see note 2*): **Cabinet**

Date decision was taken: **13th DECEMBER 2022**

Report Title: **RECOMMENDATION OF THE REGIONAL FEE SETTING GROUP**

Decision (*see note 3*): ~~*that Cabinet accept all the recommendations of the Fees Group as set out within the report*~~

Reason for Call In

To request that Cabinet reconsiders its decision of 13 December 2022 to accept the recommendations of the Fees Group given that both Gwynedd and Ynys Môn are recommending to pay care providers considerably more with a view to ensuring the future sustainability of the social care sector in their areas.

We (*see note 4*) request that according to the Council's approved 'call-in' procedure rules (*see note 5*) a meeting of the most appropriate Overview and Scrutiny Committee be held within 5 working days (*see note 6*) of the date of your receipt of this notice.

1. Cllr. Thomas Merfyn Parry (confirmed by e-mail dated 19/12/2022)
2. Cllr. Mark Young (confirmed by e-mail dated 19/12/2022)
3. Cllr. Bobby Feeley (confirmed by e-mail on 20/12/2022)
4. Cllr. Huw Hilditch Roberts (confirmed by e-mail on 20/12/2022)
5. Cllr. Chris Evans (confirmed by e-mail on 19/12/2022)

Dated: **19th December 2022**

Guidance Notes

1. Five working days are allowed for a decision to be called-in following its publication on the Council's web-site and notification to Members of the Council. Urgent decisions may proceed despite a call-in if the decision-maker has the agreement of:
 - (i) the chair of the relevant scrutiny committee, or
 - (ii) if there is no such person or that person is unable to act, the Chair of the Council, or
 - (iii) if there is no chair of the relevant scrutiny committee or Chair of the Council, the Vice Chair of the Council.
2. Please state the name of the decision maker e.g. Cabinet or the Lead Member for.....
3. If the decision contains more than one part, please state which are to be called-in, e.g. parts (a), (b), and (d) of the Resolution.
4. Signatories must be non-executive members. Councillors with a prejudicial interest in the decision may not be a signatory to the Notice of Call-in.
5. The Denbighshire Call-in Procedure Rules appear in the Council's Constitution *Part 4.5 – Scrutiny Procedure Rules*.
6. Timescales may be extended in exceptional circumstances with the agreement of the decision-maker and the chair of the relevant scrutiny committee.

For Office use only

Received by: Rhian Evans, Scrutiny Co-ordinator Date: 20/12/2022

Date decision was published: 15th December 2022

Notification sent to Leader and the Decision taker (date): 22nd December 2022

Notification sent to Chief Executive (date): 20th December 2022

Relevant Scrutiny Committee: Communities Scrutiny Committee

Date: 19th January 2023 Time: 10am Venue: County Hall, Ruthin

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	19 Ionawr 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Win Mullen-James (Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio)
Pennaeth Gwasanaeth	Emlyn Jones (Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad)
Awdur yr Adroddiad	Glesni Owen (Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd)
Teitl	Camdriniaeth o Gŵn

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I edrych ar faint o werthiannau cyfreithiol ac anghyfreithlon o gŵn o fewn Sir Ddinbych (yn arbennig yn ystod pandemig COVID-19) - gan gynnwys nifer o gwynion a ddaeth i law, wedi'u harchwilio a'u cadarnhau, a sut mae gwahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a riportwyd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I benderfynu a oes angen cryfhau neu wella perthnasau gwaith er mwyn delio ag unrhyw broblemau neu atal problemau yn y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn, gyda'r bwriad o gefnogi hyfywedd masnachwyr trwyddedig i weithredu hyn gan leihau dioddefaint i'r anifeiliaid.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn trafod cynnwys yr adroddiad ac yn darparu adborth a sylwadau ar ei gynnwys.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

- 4.1. Cymrodd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ('y Rheoliadau') le'r Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru ac mae'n darparu trwydded gan Awdurdodau Lleol (ALI) i unigolion sydd yn rhan o fridio cŵn. Cyflwynodd y Rheoliadau newydd feini prawf mwy caeth i sefydliadau bridio a sefydlwyd bod cymhareb gofalwr a chi yn gorfod bod o leiaf un aelod o staff llawn amser i 20 o gŵn oedd yn oedolion. Y rheoliadau oedd y cyntaf o'r fath yn y DU, ac er bod gan nifer o sefydliadau ac elusennau lles wahanol safbwyntiau ar gynnwys y rheoliadau, roeddynt yn cael eu croesawu'n eang. Ers cyflwyno'r rheoliad, mae pryderon parhaus ynghylch y safonau mewn rhai eiddo trwyddedig yng Nghymru, a'r adnoddau ac arbenigedd sydd ar gael o fewn Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
- 4.2. Yna ym mis Medi 2021, daeth Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 i rym. Mae'r Rheoliadau hyn wedi newid y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthiant o anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng Nghymru, sydd yn cynnwys gwaharddiad o werthiant trydydd parti masnachol o gŵn a chathod bach. Mae gwneud y gorau o safonau lles ar draws Cymru yn flaenoriaeth a bwriad y Rheoliadau newydd yw hyrwyddo bridio cyfrifol a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu bridio mewn amodau addas.
- 4.3. Fel rhan o ymrwmiadau Llywodraeth Cymru (LIG) yn y Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26, sefydlwyd prosiect a ariennir gan LIG sef Prosiect Gorfodaeth Awdurdod Lleol i gefnogi awdurdodau lleol gyda hyfforddiant a gwaith gorfodi. Sefydlodd y prosiect Tîm Cenedlaethol o Swyddogion Trwyddedu Anifeiliaid sydd yn gweithio yn genedlaethol i fynd i'r afael â bridwyr anghyfreithlon a heb drwyddedi, a chefnogi awdurdodau lleol gyda'u hymchwiliad. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r prosiect hwn yn cefnogi awdurdodau lleol wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**.

Sefyllfa Gyfredol Sir Ddinbych

- 4.4. Ar hyn o bryd mae gennym 13 o fridwyr cŵn trwyddedig wedi'u lleoli ar draws y Sir. Mae trwyddedau yn cael eu hadnewyddu yn flynyddol sydd yn cynnwys

ymweliad gan ein Swyddog Lles Anifeiliaid a Milfeddyg, sydd wedi'i gyflogi gan yr awdurdod a gyda phrofiad helaeth yn y maes gwaith hwn. Mae gennym safonau uchel o gydymffurfiaeth gydag amodau trwyddedu. Mae ein Deiliaid Trwydded yn gweithio'n agos gyda'n Swyddogion os ydynt eisiau unrhyw gyngor neu arweiniad.

- 4.5. Nid yw cwynion gan yr awdurdod o fridwyr heb drwydded/ anghyfreithlon yn sylweddol. Os ydym yn amau bod rhywun yn bridio, byddant yn cael llythyr a ffurflen gais gennym yn gofyn iddynt wneud cais fel y gellir gwneud asesiad i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â'r Amodau Trwyddedu cyfredol.
- 4.6. Rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd nifer fechan o fridwyr heb drwydded posibl ac wedi gwneud cais gan y Tîm Cenedlaethol Trwyddedu Anifeiliaid oherwydd bod ein hadnoddau'n brin o fewn ein Gwasanaeth i gyflawni ymchwiliadau helaeth.

Cŵn Crwydr a Chanolfannau Achub

- 4.7. Yn ystod y pandemig roedd gostyngiad sylweddol mewn ymholiadau am gŵn crwydr i'r Gwasanaeth Warden Cŵn fel yr amlinellir yn y Tabl isod, fodd bynnag rydym eisoes yn gweld cynnydd yn yr ymholiadau i'r Gwasanaeth yn ystod 2022 gyda 52% o'r ymholiadau hynny yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

	2018	2019	2020	2021	2022
Warden Ci - Cais am Wasanaeth	296	286	159	140	176

Data yn gywir ar 16/12/2022

- 4.8 Cysylltwyd â dwy Ganolfan Achub Elusennol i gael clywed am brofiadau am effaith y pandemig ar eu Gwasanaeth. Ni wnaeth un elusen ymateb, ond mi wnaeth North Clwyd Animal Rescue (NCAR) ein cynelau awdurdodedig i'r Gwasanaeth Warden Cŵn ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol. Mae manylion o'u hymateb i'w gweld yn **Atodiad 2**.
- 4.9 Roedd gwybodaeth gan NCAR a'n Gwasanaeth Warden Cŵn ein hunain yn dangos bod gostyngiad sylweddol mewn cŵn crwydr a chŵn yn cael eu rhoi yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae dangosydd amlwg bod y ffigurau hyn yn cynyddu i'r lefelau cyn y pandemig.

4.10 Mae NCAR wedi cadarnhau bod ganddynt dros 400 o gŵn ar y rhestr aros yn aros i gael eu trosglwyddo, dyma'r nifer uchaf ers cyn y pandemig. Roedd y rhestr aros cyn y pandemig gyda thua 100 o gŵn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwydnwch ; - Os yw pobl yn dewis prynu ci ar gyfer cwmnïaeth ac annibyniaeth a all eu cefnogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain am hirach, a'u caniatáu i fwynhau'r cefn gwlad gyda chwmni ci. Maent yn gwybod bod y cŵn hyn wedi dod gan fridiwr gydag enw da gyda'r holl wiriadau iechyd angenrheidiol mewn lle, sydd yn lleihau'r costau diangen ac ymweliadau i'r milfeddyg oherwydd anifail nad yw'n iach.

5.2. Bod y sefydliad trwyddedu gofynnol yn cydymffurfio â'r safonau trwyddedu ac unrhyw ofynion cynllunio, i beidio ag achosi unrhyw niwsans sŵn nag arogl i'r cymdogion gerllaw.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y costau yn cael eu cadw o fewn y cyllidebau gwasanaeth cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oedd angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid yw hwn wedi bod yn destun proses ymgynghori; fodd bynnag cysylltwyd ag elusennau Achub Anifeiliaid a gofynnwyd am sylw ynghylch effaith posibl y pandemig ar eu helusennau. Mae'r wybodaeth a dadansoddiad o'u hymatebion wedi cael eu hamlinellu yn **Atodiad 2**.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes goblygiad ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, gydag unrhyw gostau a nodwyd yn 6.1 yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau cyfredol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

